

Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

Llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit

Papur briffio

Gorffennaf 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru/

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7270**
E-bost: **Katy.Orford@senedd.wales**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit

Papur briffio

Gorffennaf 2021

Awduron:
Katy Orford a Sara Moran



Cynnwys

Crynodeb	1
-----------------------	----------

Yn gryno	4
-----------------------	----------

Mecanweithiau llywodraethu amgylcheddol	6
--	----------

Swyddogaeth monitro ac adrodd	7
-------------------------------------	---

Swyddogaeth orfodi	8
--------------------------	---

Mynediad ar gyfer dinasyddion.....	10
------------------------------------	----

Cymhwyso llywodraethu amgylcheddol	11
--	----

Egwyddorion amgylcheddol	12
--------------------------------	----

Cyfraith ryngwladol	13
---------------------------	----

Uchelgeisiau i fynd i'r afael â'r bwloch llywodraethu yng

Nghymru	14
----------------------	-----------

Mecanwaith deddfwriaethol	14
---------------------------------	----

Corff llywodraethu amgylcheddol	14
---------------------------------------	----

Egwyddorion amgylcheddol.....	15
-------------------------------	----

Casgliadau Llywodraeth Cymru	16
------------------------------------	----

Trefniadau pontio	17
-------------------------	----

Datblygiadau Llywodraeth y DU: y goblygiadau i Gymru.....18

Bil yr Amgylchedd y DU 18

Dull gweithredu y DU gyfan 19

Fframweithiau Cyffredin 20

Rhwymedigaethau rhyngwladol21

Y camau nesaf..... 22

Ffynonellau allweddol 23

Crynodeb

Yn dilyn canlyniad y refferendwm ar yr UE, roedd pryder eang ar draws sector yr amgylchedd ynghylch bylchau mewn llywodraethu amgylcheddol yn deillio o ymadawiad y DU â'r UE.

Mae llywodraethu amgylcheddol yr UE wedi'i ymgorffori yng nghytuniadau'r UE, sy'n rhoi rôl gydlyn ganolog i sefydliadau'r UE fonitro a gorfodi deddfwriaeth amgylcheddol ledled yr UE. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder yr UE, felly, wedi chwarae rhan sylweddol wrth lywodraethu'r broses o roi deddfau amgylcheddol sy'n deillio o'r UE ar waith ledled y DU, ac wrth ddatrys anghydfodau amgylcheddol trawsffiniol rhwng y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill.

Mae'r system hon o lywodraethu amgylcheddol yr UE yn cynnwys monitro ac adrodd ar weithredu cyfraith amgylcheddol, cymryd cwynion gan ddinasyddion, a chymryd camau gorfodi. Mae hyn yn cynnwys y gallu i godi dirwyon ar aelod-wladwriaethau y canfyddir eu bod yn torri cyfraith yr UE.

Mae deddfau amgylcheddol yr UE yn cael eu drafftio a'u dehongli trwy lens egwyddorion amgylcheddol y Cytuniad ar Weithrediad yr UE,, sydd â'r nod o sicrhau safonau amgylcheddol uchel, megis 'yr egwyddor ragofalus' a'r 'egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu'. Mae'r egwyddorion amgylcheddol hyn i'w gweld mewn mannau eraill, er enghraifft mewn cyfraith ryngwladol ac mewn systemau cyfreithiol domestig. Fodd bynnag, mae system yr UE yn unigryw oherwydd y ffordd y mae'n monitro ac yn gorfodi'r egwyddorion.

Fe wnaeth system llywodraethu amgylcheddol yr UE, gan gynnwys yr egwyddorion, ddiflannu o'r DU ar ddiwedd cyfnod pontio Brexit ar 31 Rhagfyr 2020.

Er bod llywodraethau'r DU wedi cymryd rhai camau i adfer cyfundrefnau llywodraethu amgylcheddol domestig, nid oes systemau cynhwysfawr ar waith ar ôl Brexit ar hyn o bryd.

Mae grwpiau amgylcheddol ledled y DU wedi bod yn galw am weithredu i fynd i'r afael â'r 'bwllch llywodraethu' hwn, gan eu bod yn ofni y gallai hyn arwain at niwed amgylcheddol, heb fawr o fesurau ar gael i wneud iawn.

Mae llywodraethau'r DU wedi bod yn datblygu systemau llywodraethu amgylcheddol ar wahân, sydd ar wahanol gamau datblygu (Blwch 1). Mae angen aros i weld sut y bydd y gwahanol systemau yn cydgysylltu â'i gilydd.

Mae rhanddeiliaid amgylcheddol yn galw am system llywodraethu amgylcheddol ar gyfer Cymru, gan gynnwys egwyddorion amgylcheddol domestig, fel mater allweddol ar gyfer gweithredu yn ystod y Chweched Senedd.

Mae'r briff hwn yn rhoi cefndir system yr UE a'r cynigion ar gyfer Cymru at y dyfodol. I gael trosolwg cyflym iawn o'r materion allweddol, gweler 'Yn gryno' ar dudalen 4.

Datblygiadau ledled y DU

- Yn 2018 ymrwymodd **Llywodraeth Cymru** ar y pryd y byddai'n "manteisio ar y cyfle deddfwriaethol priodol cyntaf i gynnwys yr egwyddorion amgylcheddol mewn cyfraith a chau'r bwlch llywodraethu". Fodd bynnag, ni chyflwynwyd unrhyw ddeddfwriaeth. **Cynhaliwyd ymgynghoriad yn 2019** yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru. Ers hynny, mae **Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid wedi cyflwyno argymhellion pellach** ac fe wnaeth **Llywodraeth flaenorol Cymru ymateb i'r rhain**. Nid yw Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth newydd Cymru (2021 i 2026) yn cynnwys cynlluniau ar gyfer system llywodraethu amgylcheddol ddomestig.
- Fe wnaeth Llywodraeth y DU gynnwys darpariaethau yn ymwneud â llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol ym **Mil Amgylchedd y DU**, sy'n berthnasol yn bennaf i Loegr a Gogledd Iwerddon fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys pwerau i sefydlu'r **Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd**. Gan nad oedd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn eistedd adeg ei ddrafftio, datblygodd swyddogion Gogledd Iwerddon ystod o ddarpariaethau ar gyfer y Bil gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon **wedi ymgynghori'n ddiweddar** ar y materion hyn (2021), sy'n ddarostyngedig i benderfyniadau gan Weinidogion a'r Cynulliad, ynghylch a yw'r Bil yn dod â nhw i rym.
- Mae darpariaethau ar gyfer egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol yn yr Alban i'w cael yn **UK Withdrawal from the European Union (Continuity) (Scotland) Act 2021**. Mae hyn yn cynnwys pwerau i sefydlu'r corff corfforaethol 'Environmental Standards Scotland'. Mae'n rhestru egwyddorion amgylcheddol y mae'n rhaid i Weinidogion yr Alban roi sylw dyledus iddynt wrth lunio polisiau (gan gynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth).

Yn gryno

1. Beth yw system llywodraethu amgylcheddol yr UE?

Mae sefydliadau'r UE yn monitro sut mae Aelod-wladwriaethau yn gweithredu cyfraith amgylcheddol yr UE. Maent yn cymryd cwynion dinasyddion a gallant gymryd camau gorfodi yn erbyn Aelod-wladwriaethau y canfyddir eu bod yn torri cyfraith amgylcheddol yr UE.

Mae'r egwyddorion amgylcheddol craidd yr UE yn y Cytuniad ar Weithrediad yr UE yn cael eu defnyddio wrth ddatblygu a dehongli cyfraith yr UE i sicrhau bod safonau amgylcheddol uchel yn llifo drwy'r UE.

2. Beth yw'r broblem?

Nid yw system llywodraethu amgylcheddol yr UE, gan gynnwys yr egwyddorion, bellach yn gymwys yn y DU ar ôl iddi ymadael â'r UE.

Y tu allan i'r UE, mae trefn llywodraethu amgylcheddol y DU bellach yn cynnwys cyfraith a phrosesau amgylcheddol rhyngwladol a domestig. Nid yw'r DU bellach yn ddarostyngedig i drafyn monitro a gorfodi amgylcheddol yr UE.

Mae rhanddeiliaid amgylcheddol yn ofni bod hyn yn creu bwlch a allai arwain at niwed amgylcheddol, heb fawr o gyfle ar gyfer mesurau gwneud iawn i lywodraethau ledled y DU.

3. Beth mae rhanddeiliaid yn galw amdano?

Mae rhanddeiliaid amgylcheddol yn galw am ddwyn deddfwriaeth sylfaenol ymlaen ar gyfer Cymru yn y Chweched Senedd, a hynny fel blaenoriaeth, i sefydlu corff neu gomisiwn llywodraethu amgylcheddol. Y dadleuon yw y dylai fod yn annibynnol ar y llywodraeth, bod â mecanwaith syml a rhad i ddinasyddion godi cwynion a bod ganddo swyddogaethau monitro a gorfodi cadarn. Yn y bôn, byddai'n dwyn llywodraethau a chyrrff cyhoeddus i gyfrif ar y ffordd y maent yn gweithredu cyfraith amgylcheddol.

Ceir cytundeb cyffredinol y dylid rhestru egwyddorion amgylcheddol craidd yr UE ar wyneb y Bil ar gyfer Cymru, gydag amcan trosfwaol i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu ar lefel uchel.

4. Faint o gynnydd sydd wedi bod?

Mae gwledydd y DU yn datblygu dulliau gweithredu ar wahân. Fe wnaeth Llywodraeth flaenorol Cymru gyhoeddi ymgynghoriad yn 2019. Yn dilyn hynny, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid i wneud argymhellion pellach. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd unrhyw ddeddfwriaeth hyd yn hyn. Ni sefydlwyd system newydd mewn pryd ar gyfer diwedd cyfnod pontio Brexit, felly sefydlodd Llywodraeth Cymru drefniadau dros dro. Mae rhanddeiliaid wedi nodi nad yw'r rhain yn llwyddo i fynd i'r afael â'r bwlch llywodraethu amgylcheddol.

Mecanweithiau Llywodraethu amgylcheddol

Mae'r adran hon yn rhoi cefndir i lywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol yr UE – y drefn y mae'r DU wedi ymadael â hi. Mae hefyd yn ymchwilio i swyddogaethau domestig presennol yng Nghymru er mwyn canfod bylchau sydd wedi codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgyngoriad cyhoeddus yn 2019**, yn ceisio barn ynghylch:

- bylchau mewn egwyddorion a llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE; a'r
- ffordd orau o ddarparu fframwaith llywodraethu sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Fe wnaeth Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd edrych ar y materion hyn mewn dau ymchwiliad, **yn 2018** ac (yn dilyn ymgyngoriad Llywodraeth Cymru).

Yn ystod ymchwiliadau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn dadlau o blaid deddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol domestig newydd. Byddai'n annibynnol ar y llywodraeth, gyda mecanwaith syml a rhad i ddinasyddion godi cwynion a swyddogaethau monitro a gorfodi cadarn. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn dadlau o blaid rhestru egwyddorion amgylcheddol craidd yr UE yn benodol ar wyneb y Bil.

Ers yr 1970au, mae trefniadau **llywodraethu amgylcheddol** yr Aelod-wladwriaethau wedi cael eu hymgorffori'n raddol yn yr UE. Mae cytuniadau dilynol yr UE wedi cynnwys ymrwymïadau newydd gyda'r bwriad o hyrwyddo nod yr UE o greu polisi amgylcheddol cyffredin. Ei nodau bellach yw:

- gwarchod, diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd;
- diogelu iechyd pobl;
- sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n ddarbodus ac yn rhesymegol; a
- hyrwyddo mesurau yn rhyngwladol i frwydro yn erbyn problemau rhanbarthol neu fyd-eang, gan gynnwys atal newid hinsawdd.

Mae gan sefydliadau'r UE rôl oruchwylio o ran sicrhau bod yr Aelod-wladwriaethau'n cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yr UE. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys monitro ac adrodd ar weithredu cyfraith amgylcheddol, cymryd cwynion gan ddinasyddion, a chymryd camau gorfodi, fel dwyn achosion tor rheolau.

Mae'r UE hefyd yn cynnal gwahanol fathau o adolygiadau o bolisi a deddfwriaeth amgylcheddol, fel:

- proses adolygu dreigl i sicrhau bod deddfwriaeth amgylcheddol yn addas at y diben (sef **REFIT neu'r rhaglen 'Addasrwydd a Pherfformiad Rheoleiddio'**); ac
- **Adolygiad Gweithredu Amgylcheddol** 2017, a oedd yn manylu ar y prif heriau a chyfleoedd ar gyfer gweithredu deddfwriaeth amgylcheddol i bob Aelod-wladwriaeth.

Swyddogaeth monitro ac adrodd

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn monitro'r ffordd y caiff cyfraith amgylcheddol yr UE ei gweithredu. Mae'n defnyddio dangosyddion cenedlaethol ac adroddiadau gweithredu a gyflwynir iddo i wneud hyn. Er enghraifft, bob chwe blynedd, mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau adrodd ar statws cadqwaeth y cynefinoedd a'r rhywogaethau yn y **Gyfarwyddeb Cynefinoedd** er mwyn dangos tystiolaeth bod y Gyfarwyddeb yn cael ei gweithredu. Mae adroddiadau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gynnydd yn darparu data a sail i ddwyn llywodraethau'r Aelod-wladwriaethau i gyfrif o ran gweithredu deddfwriaeth amgylcheddol.

Mae yna ofynion monitro ac adrodd domestig yng Nghymru o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* a *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, ddangosyddion cenedlaethol (a luniwyd gan Weinidogion Cymru), yr amcanion a datganiad llesiant (gan gyrrff cyhoeddus Cymru), adroddiad blynyddol llesiant Cymru (gan Weinidogion Cymru) ac Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (gan Cyfoeth Naturiol Cymru). Ceir rhestr fwy cynhwysfawr ar dudalen 25-26 o **ymgyngoriad 2019 Llywodraeth Cymru**.

Daeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i'r casgliad i'r casgliad yn 2019fod y gofynion monitro ac adrodd o dan gyfraith bresennol Cymru wedi'u cynllunio at bwrpas gwahanol i bwrpas y Comisiwn Ewropeaidd. Dywedodd, er bod y rhain yn ategu gofynion presennol yr UE, "nad ydynt yn darparu trefn ddigonol yn eu lle". Fe wnaeth y Pwyllgor ddadlau, oni bai bod gofynion adrodd cadarn, priodol yn cael eu rhoi ar waith ar ôl Brexit, y gallai gyfyngu ar oruchwyliaeth a chraffu effeithiol ar weithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

O ran casglu data, daeth y Pwyllgor i'r casgliad hefyd fod buddion helaeth yn gysylltiedig ag aelodaeth y DU o **Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop**. Nid yw'r DU bellach yn aelod o Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop. Roedd gan y Pwyllgor bryderon ynghylch y capasiti a'r arbenigedd yng Nghymru, a ledled y DU, i efelychu arbenigedd technegol sefydliadau'r UE.

Swyddogaeth orfodi

Os nad yw Aelod-wladwriaeth wedi cydymffurfio â chyfraith yr UE, gall y Comisiwn Ewropeaidd gymryd camau gorfodi. Gall y broses hon arwain at gyfeirio'r mater **at Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd**. Mae Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn gwrando ar nifer fach o achosion yn unig oherwydd y dylai troi at y llysoedd fod yn ddull gorfodi terfynol, a dim ond lle mae dulliau eraill wedi methu. Mae modd mynd ag achosion at Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd mewn sawl ffordd (**fel yr amlinellir gan Lywodraeth Cymru**):

- Atgyfeiriad gan lysoedd cenedlaethol Aelod-wladwriaethau ar ddehongli cyfraith yr UE;
- Drwy Gomisiwn yr UE yn dwyn achos yn erbyn un o wladwriaethau'r UE mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri ei rhwymedigaethau i'r UE;
- Drwy un o wladwriaethau'r UE yn mynd ag Aelod-wladwriaeth arall i'r llys; neu
- Gall y llys gynnal adolygiad barnwrol o gyfraith yr UE. Mae hyn yn golygu bod ganddo'r pŵer i adolygu Rheoliadau a Chyfarwyddebau'r UE a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Chytuniadau'r UE ac egwyddorion cyffredinol y gyfraith.

Os canfyddir bod Aelod-wladwriaeth yn torri'r gyfraith, gall **Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ei gwneud yn ofynnol** iddi gymryd mesurau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r dyfarniad, gan gynnwys rhoi diwedd ar unwaith ar dorri'r gyfraith. Gall hefyd orfodi dirwyon os nad yw'r Aelod-wladwriaeth wedi cydymffurfio â'i ddyfarniad cychwynnol, a chynnig gan y Comisiwn yw'r sail ar gyfer pennu'r swm.

Er enghraifft, yn 2016, **fe wnaeth Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd ddyfarnu** bod y DU wedi methu â chyfyngu allyriadau o orsaf bŵer Aberaddaw ym Mro Morgannwg, ac fe wnaeth orchymyn i'r DU dalu'r costau cyfreithiol cysylltiedig. Daeth hyn i'r amlwg yn dilyn ymholiadau'r Comisiwn fel rhan o'i waith o fonitro safleoedd llosgi mawr. Canfuwyd bod yr orsaf llosgi glo, a gaeodd yn 2020, **yn allyrru** symiau anghyfreithlon o ocsidau nitrogen rhwng 2008 a 2011.

Gall Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd hefyd ddyfarnu ar anghydfodau amgylcheddol trawsffiniol rhwng Aelod-wladwriaethau, fel yn 2006 pan

ddyfarnodd ar **anghydfod safle MOX** rhwng y DU ac Iwerddon. Roedd yr achos yn ymwneud â llygredd morol ym Môr Iwerddon yn sgil gollwng ymbelydredd o safle niwclear Sellafield yn y DU.

Gall y Llys hefyd gymryd camau yn erbyn sefydliad, corff, swyddfa neu asiantaeth yr UE i ddirymu mesur sy'n groes i gyfraith yr UE neu oherwydd methiant i weithredu.

Ar hyn o bryd, adolygiad barnwrol yw mecanwaith allweddol y DU ar gyfer gwneud iawn yn erbyn cyrff cyhoeddus ac sydd ar gael i'r cyhoedd. Gall llysoedd adolygu cyfreithlondeb y gweithredoedd gan gorff cyhoeddus. Nid y prif fater mewn achosion o'r fath yw a yw'r casgliad y daeth corff cyhoeddus iddo yn iawn, on yn hytrach a ddilynwyd y weithdrefn gywir. Mae'r rhwymediau a ganlyn ar gael:

- gorchmynion gorfodol i'w gwneud yn ofynnol i'r corff sy'n cael ei adolygu wneud rhywbeth;
- gorchmynion gwaharddol i rwystro neu atal y corff rhag gwneud rhywbeth; a
- gorchmynion dileu i roi penderfyniad corff o'r neilltu ar y sail ei fod yn annilys.

Mae sawl **tribiwnlys** yn system gyfiawnder y DU mewn strwythur tribiwnlys dwy haen; tribiwnlys haen gyntaf ac uwch dribiwnlys. Mae'r ddau wedi'u rhannu'n siambrau. Mae pob siambr yn cwmpasu awdurdodaethau tebyg neu'n dod â mathau tebyg o arbenigwyr ynghyd i wrando ar apeliadau. Mae'r tribiwnlys haen gyntaf yn gwrando ar apeliadau gan ddinasyddion yn erbyn penderfyniadau a wneir gan adrannau neu asiantaethau llywodraeth. Prif ddiben yr uwch dribiwnlys, ond nid yr unig ddiben, yw adolygu a phenderfynu ar apeliadau sy'n deillio o'r tribiwnlys haen gyntaf.

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion

Gwledig, fe wnaeth rhanddeiliaid adrodd am wendidau o fewn strwythurau gorfodi domestig a diffyg rhwymedi a sancsiwn am beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth. Roedd cefnogaeth eang ymhlith rhanddeiliaid i fecanwaith gorfodi anffurfiol ar gyfer unrhyw gorff llywodraethu amgylcheddol newydd er mwyn ei gwneud yn bosibl datrys materion trwy gydweithrediad. Fodd bynnag, roeddent yn mynnu bod mecanwaith cadarn, ffurfiol, gan gynnwys achosion gorfodi, a sancsiynau credadwy am barhau i beidio â chydymffurfio, yn hanfodol.

Clywodd y Pwyllgor fod cefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid i achosion yr ymchwiliwyd iddynt gan gorff llywodraethu newydd gael eu hatgyfeirio at fforwm barnwrol priodol i'w hadolygu. Fe wnaethant dynnu sylw at wendid adolygiadau barnwrol gan ddadlau nad oedd hyn yn drefn briodol nac effeithiol

yn lle'r gweithdrefnau torri cyfraith sydd ar gael i Lys Cyfiawnder yr UE. Galwodd nifer o randdeiliaid am sefydlu llys neu dribiwnlys amgylcheddol pwrpasol gydag arbenigwyr technegol o ystod o feysydd polisi amgylcheddol.

Mynnodd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid fod cosbau ariannol yn offeryn gorfodi hanfodol, a bod bygythiad dirwyon torri cyfraith yr UE yn allweddol i lwyddiant system yr UE. Awgrymodd rhai y gellid defnyddio referniw dirwyon at ddibenion amgylcheddol. Roedd rhai yn cydnabod heriau ymarferol dyblygu system ddirwyo o fewn y cyd-destun domestig. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gallai system ddirwyo ar gyfer diffyg cydymffurfio parhaus â chyfraith amgylcheddol weithredu yng Nghymru.

Mynediad ar gyfer dinasyddion

Gall dinasyddion yr UE **hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd** mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth yr UE. Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd ddisgresiwn i weithredu ar y wybodaeth a geir, a all arwain at achosion am dorri'r gyfraith gerbron Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd fel y nodir uchod. Mae **ymgyngoriad Llywodraeth Cymru yn 2019** yn nodi bod "y gwasanaeth sy'n gyfrifol am y broses yn ddi-dâl, yn syml ac yn effeithiol". Mae'r elusen amgylcheddol **ClientEarth** wedi cymryd **camau cyfreithiol yn erbyn Llywodraeth y DU** am fethu â chydymffurfio â **Chyfarwyddeb Ansawdd Aer yr UE** a mynd i'r afael â lefelau anghyfreithlon o lygredd **nitrogen deuocsid** (NO₂).

Yng Nghymru, ar lefel ddomestig:

- Gall yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus gymryd cwynion gan ddinasyddion ynghylch y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni swyddogaethau.
- Gall unigolion hefyd godi materion gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Gall dinasyddion gyflwyno deisebau i'r Senedd.
- Mae'n ofynnol bod cyrff cyhoeddus wedi sefydlu gweithdrefnau cwyno, gan gynnwys ymrwymadau i ymchwilio ac ymateb i gwynion am eu perfformiad yn llawn.

Clywodd y Pwyllgor fod cefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid i'r cynnig bod unrhyw gorff llywodraethu newydd yn ymgymryd â swyddogaeth gwynion fel ffordd o fynd i'r afael â'r bwch sy'n deillio o golli system cwynion dinasyddion yr UE. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at gyfyngiadau mecanweithiau domestig presennol fel

ffordd o gael mynediad at gyfiawnder ar faterion amgylcheddol. Roedd consensws eang y dylai unrhyw fecanwaith cwynion newydd fod yn syml i'w ddefnyddio, heb gost a heb rwymedigaeth, yn unol â system yr UE.

Ni fydd ymadawriad y DU â'r UE yn effeithio ar ei rhwymedigaethau rhyngwladol yn y maes hwn, gan gynnwys y rhai sydd yn y Confensiwn ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Gwneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder mewn Materion Amgylcheddol ("**Confensiwn Aarhus**"), y mae'r DU yn barti iddo yn ei rhinwedd ei hun. Mae'r **Confensiwn yn darparu** nifer o hawliau i unigolion a sefydliadau mewn perthynas â'r amgylchedd, fel:

- hawl dinasyddion i dderbyn gwybodaeth amgylcheddol a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus;
- yr hawl i gymryd rhan yn y gwaith o baratoi cynlluniau, rhaglenni, polisiau a deddfwriaeth a allai effeithio ar yr amgylchedd; a'r
- hawl i gael mynediad at weithdrefnau adolygu pan fydd eu hawliau mewn perthynas â mynediad at wybodaeth neu gyfranogiad y cyhoedd wedi'u torri.

Cymhwyso llywodraethu amgylcheddol

Mae system llywodraethu amgylcheddol yr UE yn gymwys i lywodraethau Aelod-wladwriaethau'r UE o ran rhwymedigaeth ac atebolrwydd.

Yn ei hymgyngoriad yn 2019, cynigiodd Llywodraeth Cymru y gallai cylch gorchwyl corff domestig newydd ymestyn i'r canlynol:

- Gweinidogion Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- awdurdodau lleol Cymru; a
- Gweinidogion y Goron (e.e. yn unol â'u cyfrifoldebau o dan *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*).

Clywodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig dystiolaeth gan sawl rhanddeiliad y dylai pob corff cyhoeddus ddod o dan gwmpas unrhyw gorff llywodraethu amgylcheddol domestig o ran atebolrwydd (ac y dylai hyn adlewyrchu'r cyrff a fydd yn cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol). Safbwynt amgen oedd mai'r brif rôl y dylai'r corff newydd ei chyflawni yw dim ond dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol sy'n deillio o'r UE.

Daeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i'r casgliad y dylai cwmpas y corff Llywodraethu newydd ymestyn i bob corff cyhoeddus yng Nghymru y bydd yn ofynnol iddynt gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol. Dywedodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio, fel man cychwyn, y cyrff cyhoeddus a restrir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

Egwyddorion amgylcheddol

Mae polisi amgylchedd yr UE wedi'i seilio ar ei egwyddorion amgylcheddol, sy'n ceisio sicrhau safonau amgylcheddol uchel.

Mae **Erthygl 191(2) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd** yn rhestru pedair egwyddor amgylcheddol graidd yr UE fel a ganlyn:

- Yr egwyddor atal;
- Yr egwyddor y dylai difrod amgylcheddol, fel blaenoriaeth, gael ei gywiro yn y tarddle;
- Egwyddor y llygrwr sy'n talu; ac
- Yr egwyddor ragofalus.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn defnyddio'r egwyddorion hyn wrth ddatblygu a dehongli deddfwriaeth yr UE. Yn hytrach na'u bod yn cael eu cymhwyso'n uniongyrchol i'r Aelod-wladwriaethau, mae egwyddorion amgylcheddol yr UE yn llifo drwy bolisiau a deddfau'r UE.

Er nad yw'r egwyddorion wedi'u diffinio yn y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd **wedi cyhoeddi canllawiau** ar gymhwyso'r egwyddor ragofalus. Mae'r egwyddorion hefyd wedi'u diffinio mewn mannau eraill, gan gynnwys cyfraith ryngwladol a chyfraith achos. Ar ôl Brexit, nid yw cyfraith yr UE a Chytuniadau'r UE (gan gynnwys y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd) bellach yn gymwys i'r DU (er bod rhywfaint o ddeddfwriaeth amgylcheddol yr UE yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon yn rhinwedd **Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon** y Cytundeb Ymadael).

Felly, nid yw Erthyglau perthnasol y y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys yr egwyddorion, bellach yn gymwys i'r DU. Mae'r DU wedi trosi deddfwriaeth amgylcheddol yr UE yn gyfraith ddomestig drwy **Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018**. Cyfeirir at y ddeddfwriaeth hon bellach fel 'cyfraith yr UE a ddargedwir' ac fe'i datblygwyd yn wreiddiol yng nghyd-destun yr egwyddorion amgylcheddol tra'r oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth.

Felly, mae egwyddorion amgylcheddol yr UE yn cael eu cymhwyso'n anuniongyrchol drwy gyfraith yr UE a ddargedwir, ond nid ydynt wedi'u cario drosodd yn uniongyrchol i gyfraith ddomestig o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd. Gellid hefyd newid y sylfaen hon o gyfraith yr UE a ddargedwir at y dyfodol gan fod ymadael â'r UE yn golygu bod y DU yn gallu gwro oddi wrth gyfraith yr UE a ddargedwir (i'r graddau nad yw hyn yn torri ei rhwymedigaethau rhyngwladol).

Gallai'r egwyddorion ddod i rym hefyd lle ma cyfraith achos yr UE a ddargedwir yn cyfeirio atynt.

Cyfraith ryngwladol

Y tu allan i'r UE, mae trefn diogelu amgylcheddol y DU bellach yn cynnwys cyfraith amgylcheddol rhyngwladol a domestig.

Yn absenoldeb deddfwriaeth yr UE, cyfraith ryngwladol bellach yw prif ffynhonnell allanol deddfwriaeth amgylcheddol yn y DU. Mae cyfraith ryngwladol ar wahân i gyfraith yr UE ac yn ei rhagddyddio, ac mae'n gymwys i'r DU waeth beth fo'i haelodaeth o'r UE. Mae'r egwyddorion amgylcheddol a drafodir yma yn bodoli mewn cyfraith amgylcheddol ryngwladol. Fodd bynnag, mae'r system gyfreithiol ryngwladol yn wahanol iawn i system yr UE ac nid yw'n cael ei monitro a'i gorfodi i'r un graddau.



Uchelgeisiau i fynd i'r afael â'r bwlch llywodraethu yng Nghymru

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol ('y Grŵp Gorchwyl') yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2019 i ddarparu argymhellion pellach. Mae'r adran hon yn amlinellu ei **argymhellion allweddol ac ymateb Llywodraeth Cymru**, gan gynnwys trefniadau trosiannol.

Mecanwaith deddfwriaethol

Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl y dylid cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i fynd i'r afael â'r bylchau mewn llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol. Argymhellodd y dylai ymateb Cymreig fynd i'r afael â'r bylchau a fyddai'n codi ar ddiwedd y cyfnod pontio Brexit (1 Ionawr 2021). Er bod Llywodraeth flaenorol Cymru **wedi mynegi mai ei bwriad** oedd ddeddfu, ni chyflwynwyd deddfwriaeth mewn pryd i fynd i'r afael â'r bylchau.

Corff llywodraethu amgylcheddol

Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl y dylid cael 'comisiwn ar gyfer yr amgylchedd', yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, i oruchwylio'r ffordd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio yng Nghymru. Argymhellodd y dylai gael sicrwydd cyllid ac y dylai'r Archwilydd Cyffredinol ei archwilio. Argymhellodd y dylai'r comisiwn gynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Senedd.

Argymhellodd y dylai'r comisiwn fod â staff parhaol ond ei fod yn gallu tynnu ar banel arbenigol lle bo angen. Nododd y dylai'r comisiwn gael swyddogaethau priodol i gymryd cwynion dinasyddion ac ymateb iddynt, ac i gynnal ymchwiliadau lle caiff materion systemig eu nodi drwy waith archwilio a chraffu. Argymhellodd y dylai'r comisiwn gael pwerau i uwchgyfeirio materion lle bo angen i atal neu roi terfyn ar ddifrod amgylcheddol. Dywedodd y Grŵp Gorchwyl y dylai'r comisiwn allu mynd i'r afael â materion mewn modd priodol, o gynghori cyrff cyhoeddus yng Nghymru hyd at gamau gorfodi a defnyddio mecanweithiau adolygu amgylcheddol gerbron yr uwch dribiwnlys (gweler yr adran 'swyddogaeth orfodi' uchod). Nododd y dylai'r comisiwn allu gweithio ar y cyd â chyrrff eraill.

Prif ffocws trafodaethau'r Grŵp Gorchwyl oedd y sancsiynau sy'n angenrheidiol i ddod â mater i benderfyniad rhwymol ac i fynd ati mewn ffordd drylwyr i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol. Cytunodd mwyafrif y grŵp fod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â phenderfyniadau llysoedd yn ymarferol. Felly,

roedd yn teimlo y dylai fod yn ddigonol i ymestyn y rhwymedïau cyffredin sy'n gysylltiedig ag adolygiad barnwrol heb fod angen dirwyon, a fyddai, meddai, yn cael eu rhoi i'r Trysorlys beth bynnag.

Mae adroddiad y Grŵp Gorchwyl yn nodi bod y rhwymedïau ar gyfer adolygiad barnwrol yn cynnwys dyfarnu iawndal mewn achosion priodol, yn ogystal â gorchmynion a fyddai'n dileu penderfyniadau neu'n mandadu camau gweithredu. Byddai gan yr uwch dribiwnlys bwerau dirmyg llys cyffredin lle nad oedd penderfyniad yn cael ei barchu, fel bod modd i gamau gorfodi gael eu hategu gan gosbau ariannol. Nid oedd rhai aelodau o'r Grŵp Gorchwyl yn cytuno â'r dull gweithredu hwn, a mynegwyd pryder ynghylch y pwerau sydd ar gael i'r uwch dribiwnlys.

Roedd y Grŵp Gorchwyl yn ei gyfanrwydd yn derbyn nad yw'r sancsiynau y mae ei adroddiad yn eu cynnig ar yr un lefel â'r rhai a oedd ar gael yn flaenorol o dan drefn yr UE.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru **dderbyn yr argymhellion hyn**, yn amodol ar ystyriaeth gyllidebol yn y Chweched Senedd.

Er nad oedd yn un o argymhellion ffurfiol y Grŵp Gorchwyl, ystyriodd sut y byddai pwerau'r comisiwn yn gymwys i gyrff perthnasol. Nodwyd bod Bil Amgylchedd y DU, a fyddai'n sefydlu system lywodraethu Lloegr, yn defnyddio'r term 'awdurdodau cyhoeddus'. Roedd rhai aelodau o'r farn bod hon yn rhestr hynod eang o gyrff, a allai gynnwys awdurdodau heb fawr o gyfraniad o ddydd i ddydd at faterion amgylcheddol. Awgrymodd y grŵp y gellir goresgyn y broblem drwy eiriad priodol yn cyfeirio at awdurdodau sy'n cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â'r amgylchedd.

Egwyddorion amgylcheddol

Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl y dylid darparu'n benodol ar gyfer pedair egwyddor amgylcheddol yr UE (unioni yn y tarddle, y llygrwr sy'n talu, atal a rhagofalus) yn neddfwriaeth Cymru. Pwysleisiodd y dylai'r egwyddorion hyn gefnogi amcan trosfwaol, gan gynnwys y cysylltiadau rhwng polisi amgylcheddol a meysydd polisi eraill. O ran cymhwyso'r egwyddorion, argymhellodd y dylid rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud hyn wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth.

Argymhellodd y dylid ymestyn y ddyletswydd rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, sy'n gymwys i Cyfoeth Naturiol Cymru, i grŵp ehangach o gyrff

cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru. Dywedodd fod angen gwneud gwaith pellach i bennu'r diffiniad o gyrff cyhoeddus. Awgrymodd y dylid defnyddio'r diffiniad a geir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* o gyrff sy'n cyflawni swyddogaethau yn ymwneud â'r amgylchedd.

Dywedodd y Grŵp Gorchwyl y dylai **hawliau Confensiwn Aarhus** (mynediad at wybodaeth, cyfranogiad y cyhoedd a mynediad at gyfiawnder) gael eu mynegi mewn unrhyw ddeddfwriaeth sydd ar ddod ar gyfer llywodraethu amgylcheddol, ochr yn ochr â'r egwyddorion a'r fframwaith llywodraethu newydd.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion hyn yn amodol ar waith archwilio pellach ynghylch cymhwyso'r egwyddor rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

Mae rhagor o fanylion am drafodaethau'r Grŵp Gorchwyl **i'w cael yn ei adroddiad.**

Casgliadau Llywodraeth Cymru

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **werthusiad o'r opsiynau**, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 ar ôl ystyried argymhellion y Grŵp Gorchwyl ac ymgynghoriad 2019.

Roedd yr opsiynau'n cynnwys:

- gwneud dim;
- defnyddio corff/cyrff sy'n bodoli eisoes;
- sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd i Gymru; neu
- ddefnyddio Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd Llywodraeth y DU (manylion isod).

Daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad mai sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd i Gymru oedd yr opsiwn gorau. Dywedodd fod mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cefnogi hyn ac mai dyma oedd sail argymhellion y Grŵp Gorchwyl.

Fe wnaeth y gwerthusiad o'r opsiynau ystyried nifer o fodelau, gan gynnwys y model 'comisiwn' y mae'r Grŵp Gorchwyl yn ei ffafrio, ond hefyd y model 'comisiynydd', 'tribiwnlys' a 'chorff a noddir gan Lywodraeth Cymru'. Roedd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd, o'r farn mai'r model comisiwn neu gomisiynydd oedd fwyaf priodol gan y gallai gyflawni'r

ystod o swyddogaethau yr oedd eu hangen gyda'r graddau angenrheidiol o annibyniaeth". Aeth ymlaen i ddweud y bydd hyn yn dibynnu a oes slot deddfwriaethol ar gael i fwrw ymlaen â'r gwaith o lunio deddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol ac nodi'r gyllideb ar ei chyfer.

Trefniadau pontio

Cyn sefydlu egwyddorion a chorff llywodraethu amgylcheddol, mae mesurau interim wedi cael eu mabwysiadu.

Ar ddiwedd 2020, aeth Llywodraeth Cymru ati i **recriwtio Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd**. Roedd rôl asesydd interim (fel yr hysbysebwyd yn wreiddiol) yn cynnwys cymryd a chofnodi cwynion yn ystod y cyfnod ar ôl pontio, ailgyfeirio cwynion i gyrff eraill lle bo angen ac uwchgyfeirio cwynion sy'n cael eu hystyried yn rhai 'difrifol' neu frys.

Fodd bynnag, ar 31 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **drefniadau newydd** ar gyfer asesydd interim. Fe wnaeth y canllawiau hyn awgrymu fod rôl yr asesydd interim wedi newid o'r cyfrifoldebau gwreiddiol. Mae'r ffocws wedi newid, o gymryd cwynion ynghylch torri cyfraith amgylcheddol a'u huwchgyfeirio, i "sut mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio".

Er mwyn cyflwyno her mewn perthynas â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, fe wnaeth Llywodraeth flaenorol Cymru gynghori dinasyddion i fynd ar drywydd y dulliau presennol o unioni domestig (e.e. adolygiad barnwrol) yn absenoldeb y Comisiwn Ewropeaidd.

Ar 24 Chwefror 2021, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru** benodiad yr Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd.

Mae'r sector amgylcheddol wedi **codi pryderon** bod arallgyfeirio rôl yr asesydd yn gam mawr yn ôl ac mae wedi galw am Fil ar gyfer Cymru i sefydlu corff llywodraethu sy'n gweithredu'n llawn fel mater o flaenoriaeth. Daeth Cyswllt Amgylchedd Cymru i'r casgliad:

It is clear that the interim arrangements do not constitute a route to environmental justice nor do they provide a substitute for the oversight and enforcement role required to replace that provided by EU institutions, as recommended by the Task Group and accepted by the Minister.

Cyn cyflwyno deddfwriaeth, fe wnaeth **Llywodraeth flaenorol Cymru ymrwmo** i barhau i gymhwyso pedair egwyddor amgylcheddol yr UE.

Datblygiadau Llywodraeth y DU: y goblygiadau i Gymru

Mae Bil Amgylchedd y DU yn mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd. Mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer corff llywodraethu amgylcheddol domestig – Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd – ac egwyddorion amgylcheddol. Er bod y darpariaethau'n gymwys i Loegr a Gogledd Iwerddon yn bennaf, mae rhai ohonynt yn gymwys i Gymru. Wrth i fframweithiau cyffredin a rhwymedigaethau rhyngwladol y DU gael eu datblyg, byddant yn bwysig wrth ystyried llywodraethu amgylcheddol ar lefel y DU.

Bil yr Amgylchedd y DU

Nod Rhan 1 o Fil yr Amgylchedd yw darparu fframwaith newydd ar gyfer llywodraethu amgylcheddol, a hynny yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn bennaf. Mae'n seiliedig, yn rhannol, ar **Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) drafft gan Lywodraeth y DU**, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, i ddiwallu rhwymedigaeth yn *Neddf Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018*.

Mae Bil yr Amgylchedd yn gwneud darpariaeth ar gyfer corff llywodraethu amgylcheddol newydd, a elwir yn Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd. Byddai gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd swyddogaethau craffu, cynghori a gorfodi mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd. Dim ond mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol heb ei datganoli y byddai gan y Swyddfa awdurdodaeth yng Nghymru. Byddai'r Swyddfa yn gymwys i Loegr a Gogledd Iwerddon yn bennaf fel y mae'r Bil wedi'i ddrafftio.

Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i'r Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ymgynghori â chorff llywodraethu amgylcheddol datganoledig pe byddai'r gwaith y mae'n ei wneud yn berthnasol i gorff o'r fath. Yn ôl **Nodiadau Esboniadol** y Bil, gallai hynny gynnwys achosion lle byddai'r Swyddfa yn dod yn ymwybodol o fater amgylcheddol trawsffiniol a allai fod wedi golygu torri deddfwriaeth ddatganoledig y tu allan i'w gylch gwaith, ond y byddai'n syrthio o fewn cylch gorchwyl y corff llywodraethu amgylcheddol datganoledig.

Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar Ysgrifennydd Gwladol y DU i baratoi datganiad polisi ar egwyddorion amgylcheddol, gyda'r amcan o gyfrannu at ddiogelu'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy. Mae'r datganiad polisi hwn **yn gymwys i Lloegr yn unig** (Atodiad A). Rhaid i Weinidogion y Goron roi sylw dyledus i'r datganiad polisi wrth ddatblygu polisi. Yr egwyddorion amgylcheddol a restrir yn y Bil yw:

- yr egwyddor y dylid integreiddio diogelu'r amgylchedd yn y gwaith o lunio polisi,
- yr egwyddor o gamau ataliol i osgoi difrod amgylcheddol;
- yr egwyddor ragofalus i'r graddau y mae'n ymwneud â'r amgylchedd;
- yr egwyddor y dylid unioni difrod amgylcheddol yn y tarddle fel blaenoriaeth; a'r
- egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

O ystyried na ddeddfwyd y Bil, ac na sefydlwyd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd erbyn diwedd y cyfnod pontio Brexit, mae DEFRA wedi sefydlu trefniadau trosiannol ar gyfer Lloegr. Cafodd system newydd ar gyfer cofrestru cwynion yn erbyn cyrff cyhoeddus yr amheuir eu bod wedi methu â diwallu cyfraith amgylcheddol **ei lansio ar ddechrau 2021**.

Dull gweithredu y DU gyfan

Mae **Nodiadau Esboniadol Bil Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) drafft (2018)** Llywodraeth y DU (tudalen 39) yn nodi y gallai Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd arfer swyddogaethau yn ehangach ledled y DU, yn amodol ar y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt am y fframwaith gyda'r gweinyddiaethau datganoledig. Cydnabu DEFRA hefyd y byddai'n fuddiol gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i lunio'r cynigion ar y cyd.

Gwnaeth Llywodraeth flaenorol Cymru yn glir nad oedd y model llywodraethu arfaethedig ar gyfer Lloegr yn ddull ymarferol i Gymru, a'i fod yn anghydnaws â'r setliad datganoli a deddfwriaeth bresennol Cymru. Er gwaethaf hyn, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn barod i drafod dulliau gweithredu ar gyfer y DU gyfan a gweithio i gyd-ddylunio trefniadau gyda llywodraethau eraill yn y DU. Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru hefyd at drafodaethau ar gytuno "ar gyfres gyson o egwyddorion amgylcheddol, yn hytrach na chyfres gyffredin sy'n berthnasol ledled Prydain".

Fframweithiau Cyffredin

Mae cynllunio ar gyfer cydweithredu/cydgysylltu ledled y DU mewn rhai meysydd amgylcheddol yn mynd rhagddo ar ffurf y '**rhaglen fframweithiau cyffredin**'.

Mae'r DU a'r llywodraethau datganoledig wedi ymrwymo i gynnal dulliau gweithredu ledled y DU mewn mwy nag 20 o feysydd polisi ar ôl Brexit. Yn gyffredinol, bydd cytundebau fframwaith cyffredin yn nodi sut a phryd y bydd llywodraethau'n penderfynu mabwysiadu'r un dulliau o ymdrin â pholisi a rheoleiddio, a phryd i ymwahanu. Bydd deddfwriaeth yn sail i rai fframweithiau.

Yn 2017, **cytunodd Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig** y byddai fframweithiau cyffredin yn cael eu sefydlu lle roedd eu hangen er mwyn:

- galluogi marchnad fewnol y DU i weithredu, ond gan gydnabod gwahaniaethau polisi;
- sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol;
- sicrhau y gall y DU negodi cytundebau masnach newydd a chytuniadau rhyngwladol, ymrwymo iddynt a'u rhoi ar waith;
- galluogi adnoddau cyffredin i gael eu rheoli;
- gweinyddu a darparu mynediad at gyfiawnder mewn achosion sydd ag elfen drawsffiniol;
- gwarchod diogelwch y DU.

Rhwng 2018 a 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU dair **dogfen ddadansoddi** lle byddai angen fframweithiau cyffredin. Mae'r dadansoddiad diweddaraf yn nodi y bydd fframweithiau cyffredin yn cael eu sefydlu mewn sawl maes polisi amgylcheddol, gan gynnwys Sylweddau Peryglus (Cynllunio), cemegau a phlalladdwyr ac ansawdd aer. O'r rhain, dim ond drafft o'r fframwaith **Sylweddau Peryglus (Cynllunio)** sydd wedi'i gyhoeddi. Disgwylir i eraill gael eu cyhoeddi yn ystod 2021 a byddant yn ddarostyngedig i **broses graffu bwrpasol** ym mhedair deddfwrfa'r DU.

Ni chynigiwyd cyfres gyffredin o egwyddorion amgylcheddol trosfwaol y DU i ddisodli egwyddorion yr UE fel rhan o'r rhaglen fframwaith cyffredin.

Rhwymedigaethau rhyngwladol

Mae faint o ryddid sydd gan y DU wrth bennu ei threfniadau llywodraethu amgylcheddol yn y dyfodol wedi'i gyfyngu gan ei rhwymedigaethau rhyngwladol.

Yn absenoldeb system llywodraethu amgylcheddol yr UE, cyfraith amgylcheddol rhyngwladol bellach yw prif ffynhonnell allanol deddfwriaeth amgylcheddol y DU. Er enghraifft, mae'r DU yn barti i lawer o gytundebau amgylcheddol amlochrog mawr, fel Cytundeb Paris y Cenhedloedd Unedig. Disgwylir nifer o gytundebau newydd yn ystod y Chwched Senedd, gan gynnwys rhai ar fioamrywiaeth, llygredd plastig a llywodraethu cefnforoedd.

Yn ogystal, mae'r DU wedi ymrwymo i gytundebau dwyochrog â gwladwriaethau eraill sy'n cynnwys rhwymedigaethau amgylcheddol, fel y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad newydd rhwng y DU a'r UE. Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredid yn ymrwymo'r DU a'r UE i barchu rhai egwyddorion amgylcheddol ac yn cyfeirio at sawl offeryn rhyngwladol. Mae hefyd yn ymrwymo cyrff goruchwyllo'r DU a'r UE i gwrdd yn rheolaidd ac i gydweithredu ar fonitro a gorfodi cyfraith yr amgylchedd a hinsawdd fel y mae'n ymwneud â dim atchwelyd. Mae rhwymedigaethau o'r fath yn golygu nad oes gan y DU ryddid llwyr wrth bennu ei pholisi amgylcheddol at y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn gyfrifol am weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd cymhwysedd datganoledig, ac mae setliad datganoli Cymru yn gofyn am gadw at rwymedigaethau rhyngwladol mewn sawl ffordd. Er enghraifft, rhaid i ddeddfwriaeth y Senedd fod yn gydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol (adran 114(1)(d) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*), ac mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bwerau i ymyrryd i sicrhau cydymffurfiaeth (adran 82 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*). Ar ben hyn, mae **Cod Gweinidogion** Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r gyfraith ac mae'n cynnwys yn benodol rwymedigaethau'n ymwneud â chyfraith a chytuniadau rhyngwladol.

Gall fframweithiau cyffredin gynnig llwybrau i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar safbwynt Llywodraeth y DU ar faterion rhyngwladol, gan gynnwys rhwymedigaethau yr ymrwymir iddynt. Er enghraifft, mae'r **fframwaith drafft Sylweddau Peryglus (Cynllunio)** yn ymrwymo Llywodraeth y DU i ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig cyn cadarnhau cytundebau rhyngwladol newydd. Fodd bynnag, **mewn meysydd eraill** mae'r llywodraethau'n cydnabod eu bod yn parhaus i anghytuno ynghylch i ba raddau y dylai'r llywodraethau datganoledig fod â rhan o ran dylanwadu ar negodiadau rhyngwladol.

Y camau nesaf

Mae'r ffaith nad oes cyfundrefn llywodraethu amgylcheddol newydd wedi ysgogi **rhanddeiliaid i awgrymu** bod gan Gymru bellach y strwythurau llywodraethu amgylcheddol gwannaf yng ngorllewin Ewrop.

Fe wnaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig **dynnu sylw at y materion hyn** fel maes craffu allweddol i'r pwyllgor sy'n ei olyn yn y Chweched Senedd.

Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol Cymru i sicrhau uchelgeisiau ar gyfer strwythur llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru a rhoi'r egwyddorion amgylcheddol ar y llyfr statud.

Fodd bynnag, mae cwestiynau wedi codi o ran pryd y bydd Bil yn cael ei gyflwyno. A fydd y trefniadau interim dros dro yn ddigonol i roi lle i Lywodraeth newydd Cymru weithredu? Nid yw **Rhaglen Lywodraethu** Llywodraeth Cymru (2021 i 2026) yn cynnwys cynlluniau ar gyfer egwyddorion domestig na chorff llywodraethu amgylcheddol. Hyd nes y caiff deddfwriaeth ei cyflwyno, bydd sylw'n cael ei hoelio areffeithiolrwydd rôl yr asesydd interim, a materion sy'n codi o waith yr asesydd.

Ffynonellau allweddol

- Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, **Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit** (2018)
- Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, **Egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit** (2018)
- Llywodraeth Cymru, **Egwyddorion a threfniadau amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd** (2019)
- Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol, **Adroddiad gan y Grŵp Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol ac ymateb Llywodraeth Cymru** (2020)
- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Commons Library analysis of the Environment Bill 2019-20** (2020)
- Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Environment Bill 2019-21 and 2021-22: Report on Committee and Remaining stages in the Commons** (2021)

